# Cenn@d

1 Gorffennaf 2026

**Rhifyn 279**

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru


## Daeargryn Venezuela:

### *neges gan Mari Tutesigensi*

Annwyl ffrindiau yn yr enwadau yng Nghymru,

Bûm yn siarad gyda Carlos E. Mejia, Pennaeth Effaith/Impact Cymorth Cristnogol yn America Ladin a'r Caribî, sydd yn arwain ar y gwaith cydlynu gyda'n partneriaid yn Venezuela yn dilyn y ddau ddaeargryn dinistriol nos Fercher.

"Mae angen mawr am bethau sylfaenol fel blancedi, tyweli, citiau hylendid, dŵr, bwyd, a chymorth seicolegol," meddai. "Mae pobl yn delio â cholled fawr, wedi colli anwyliaid, cartrefi, pob dim o fewn eiliadau... Nid ydych yn bell oddi wrthym. Mae'r byd hwn yn perthyn i bob un ohonom. Dyma'r amser i roi ein dinasyddiaeth fyd-eang ar waith. Rwy'n annog pobl Cymru, fel yr wyf yn annog pobl ym mhobman, i weithredu fel dinasyddion y byd heddiw wrth i ni gofio ein brodyr a'n chwiorydd yn Venezuela."

Mae ein partneriaid ffydd yn Venezuela eisoes yn yr ardaloedd a gafodd eu taro waethaf. Rydym yn rhyddhau cyllid brys fel eu bod yn gallu darparu dŵr glân, bwyd, pecynnau iechyd a lloches i deuluoedd sydd wedi colli popeth. Ac rydym yn apelio am gefnogaeth bellach i rymuso eu hymateb dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf a chefnogi teuluoedd sydd wedi colli popeth:

https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/venezuela-earthquake-appeal

Byddwn yn ddiolchgar os medrwch chi roi '*like*/calon' a rhannu'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a'u rhannu yn eich e-newyddion ayb. dros y dyddiau nesaf, fel ein bod yn gallu cyrraedd ein rhwydweithiau yng Nghymru yn llawn:

https://www.facebook.com/ChristianAidCymru/

A wnewch ymuno â ni mewn gweddi dros bawb sydd wedi'u heffeithio, ein staff a'n partneriaid wrth iddyn nhw gydlynu ein hymateb i sefyllfa mor gymhleth? Bydd pob gweddi a phob rhodd yn cynnig gobaith i bobl sydd wedi'u taro gan drychineb.




**Wrth i'r ddaear ysgwyd**
**a chartrefi ddymchwel yn llwch,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**

**Wrth i ôl-gryniadau achosi i'r ofn barhau,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**

**Wrth i alar ysgwyd teuluoedd i'r byw,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**

**Anfon ein dwylo a'n traed i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd wrth i'n brodyr a'n chwiorydd fyw drwy hyn yn Venezuela.**

**Boed i ni, Arglwydd, ymateb mewn ffordd**
**sydd yn cydweddu â'th ras a'th gariad di. Amen**


Y Bererindod Flynyddol gan Emyr Gwyn Evans
**Tudalen 2**

Ar drothwy'r Gymanfa Gyffredinol ym Mhorthmadog
**Tudalen 3**

Capel Ebeneser, Llanllyfni, yn dathlu'r daucanmlwyddiant
**Tudalen 5**

# Y Bererindod Flynyddol
## gan Emyr Gwyn Evans

Yn cloi ein tymor bob blwyddyn mae Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli yn mwynhau cael tramwyo ar bererindod fechan. Ac ar ddechrau'r haf roedd penderfyniad wedi ei wneud y byddem yn pererindota yn ardal Eisteddfod y Garreg Las gan ein bod yn croesawu'r Genedlaethol i sir Benfro ym mis Awst. Yr un pryd roedd y daith i gynnwys elfennau o daith ddirgel, a dyna a gawsom yng nghwmni'r Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Sian Elin Thomas. Diolch iddynt am drefnu a'n tywys ar y daith.

Ddydd Mawrth, 9 Mehefin, wedi cychwyn o glos Capel Heol Dŵr, Caerfyrddin, a Chaffi Beca, Efail-wen, tramwyasom i Aberteifi. I ddechrau'r daith, cawsom baned o goffi yng Nghaffi 1176 yng nghyffiniau Castell Aberteifi, gan gael ein hatgoffa am y lleoliad lle cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf, yn ôl yr hanes, dan nawdd yr Arglwydd Rhys yn 1176. Ymwelsom wedyn ag Eglwys y Santes Fair yn y dref, a chael ein croesawu'n gynnes iawn gan y Tad Pius. Eglurodd fod yr eglwys yn gysegfran genedlaethol ac yn parhau i ddenu pererinion sy'n ymweld â'r eglwys i addoli a myfyrio gerbron y cerflun enwog o'r Forwyn Fair a'r plentyn Iesu yn ei chôl.

Yna, aethom yn ein blaenau i weld lleoliad a safle maes y brifwyl eleni ar dir fferm Brynawelon, Llantwd, lle gwnaethom gyfarfod â'r perchennog, Eirwyn Harries, a John Davies, Cwmbetws, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod eleni. Eglurodd John pa mor hwylus fyddai'r holl drefniadau a bod trigolion y tair sir sy'n cynnal yr wŷl eleni wedi hen fynd dros y targed ariannol. Cyfeiriodd at y cydweithio hapus a gafwyd, a'r cyffro a'r brwdfrydedd sydd i'w teimlo bellach wrth edrych ymlaen at ddechrau Awst. Fe'n hatgoffodd hefyd am yr un peth sy'n allweddol i lwyddiant yr Eisteddfod ac a ddylai fod yn bwnc i'n gweddïau fel gweinidogion, sef cael tywydd braf yn ystod yr wythnos!

Cawsom fwynhau ein pecynnau bwyd amser cinio yn festri capel Ebeneser Dyfed, lle mae Sian Elin yn weinidog a John a Eirwyn yn ddiaconiaid, a diolch i Beti Thomas oedd yno i weini paned o de i ni. Taith fer wedyn yng nghyffiniau Eglwyswrw a Nanhyfer, ac ymweld â hen eglwys Meline, i gyfeiriad Felindre Farchog. Yno cawsom gwmni'r hanesydd lleol Hedd Ladd Lewis, a eglurodd fod yr eglwys yn drist iawn wedi ei datgorffori gan yr Eglwys yng Nghymru, ond eto'n cael ei gwarchod a'i diogelu. Mae'r eglwys yn nodedig am ei phensaernïaeth syml ond coeth, digon tebyg i flychau sgwâr, afrosgo, trwm a phlaen yr olwg, y capeli anghydffurfiol. Efallai mai dyma pam mae'r hen eglwys yn parhau i ddenu eneidiau sydd am fwynhau'r llonyddwch sydd i'w deimlo yno a chael tawelwch i weddïo.

Aethom yn ein blaen i ymweld ag eglwys hynafol Sant Brynach yn Nanhyfer sy'n dyddio yn ôl i'r chweched ganrif. Mae'r eglwys yn enwog am ei choed yw a'r ywen waedlyd, ei chroes Geltaidd hynafol a Chroes y Pererinion, y meini ac ysgrifen ogam arnynt a charreg fedd i John Jones (Tegid), Henllys. Yn y fynwent mae cenedlaethau o deulu'r Boweniaid wedi eu claddu, hen deulu bonedd a llinach bwysig yn yr ardal.

Wedi mwynhau orig yn Nanhyfer, aethom yn ein blaenau i blasdy Llwyngwair, cartref teulu'r Boweniaid, gan gael ein hatgoffa i'r teulu fod yn gyfeillgar i'r Methodistiaid cynnar, gan letya John Wesley a Williams Pantycelyn, ymhlith eraill. Ym mhlasty Llwyngwair y cyfansoddodd Pantycelyn ei emyn enwog 'Dros y bryniau tywyll niwlog'. Cawsom y stori a'r cefndir i'r emyn gan Eirian Wyn o'r gyfrol *Meini Nadd a Mynyddoedd* gan y diweddar brifardd Eirwyn George, cyfrol sy'n frith o hen hanes ardal y Garreg Las ac yn ddarllen hanfodol i'r sawl sydd â diddordeb yn hanes y Preselau ac ardal y Garreg Las.

Ddiwedd y prynhawn, fe wnaethom ddychwelyd i Felindre Farchog gan fwynhau pryd hwyrol blasus yn Nhafarn y Salutation. Cyn y swper cynaliasom ein cyfarfod busnes gan bennu mai maes ein hastudio am y tymor nesaf fydd y dywediadau 'Myfi yw ...' o eiddo Iesu. Cawsom dymor bendithiol yn edrych ar y saith llythyr at eglwysi Asia yn Llyfr Datguddiad Ioan, ac edrychwn ymlaen yn ffyddiog i dymor newydd a chwmnïaeth braf wedi'r haf.



## Cymanfa Gyffredinol
### Eglwys Bresbyteraidd Cymru
## ym Mhorthmadog

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael eich cwmni yn y Gymanfa Gyffredinol a gynhelir eleni yng Nghapel y Porth, Porthmadog, ac yn rhithiol, ar 6–7 Gorffennaf. Mae'r papurau wedi eu hanfon a'r byrddau wrthi'n cael eu hulio'n barod ar ein cyfer yng Nghapel y Porth ac mae ein diolch yn fawr iawn i Chris Prew, gweinidog yr eglwys, a'r holl wirfoddolwyr lleol sydd wedi bod yn paratoi ar ein cyfer.

Cymanfa 24 awr fydd hon eleni, wedi ei llenwi â digon o bethau i'w trafod, wrth gwrs, ond hefyd â chyfarfodydd cyhoeddus y gall pawb ymuno ynddyn nhw. Os ydych chi'n lleol i Borthmadog, neu'n gallu ymuno ar Zoom, bydd croeso ichi ymuno yno gyda'r cynrychiolwyr ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus a restrir yn y poster (Gweler y manylion Zoom yn y poster).

Gofynnwn ar ichi gadw swyddogion y Gymanfa a'r trafodaethau a'r gweithgareddau hyn yn eich gweddïau gan ofyn ar i'r Arglwydd yn ei drugaredd dywallt ei Ysbryd arnom gan symud popeth sy'n dwyn y sylw oddi wrth ei ogoniant ef ei hun a'n hadfer ni eto yn ei ras i ddwyn gogoniant iddo ef yn unig (Salm 85:4,9).

*Nan Wyn Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*

GOLEUNI'R BYWYD

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
The Presbyterian Church of Wales

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL

# Y GYMANFA GYFFREDINOL

6-7 Gorffennaf, 2026

Capel y Porth, Porthmadog

**DYDD LLUN, 6 GORFFENNAF**

**5:00yp**

**DARLITH Y GYMDEITHAS HANES**
Darlithydd: Dr Gareth Evans-Jones, MA
*'O Gapel Celyn i Balesteina: Y Gydwybod Gymreig'*

**7:30yh**

**CYNGERDD GAN GRŴP NY AKO, MADAGASCAR**
*Lleoliad: Y Ganolfan, Porthmadog (ddim yn rhithiol)*

**DYDD MAWRTH, 7 GORFFENNAF**

**11:30yb**

**Y DDARLITH DAVIES**
Darlithydd: Parchg Ddr Andras Iago, BA, MA
*'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru newydd'*

**12:30yp**

**GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD**
I Bregethu: Parchg. John G. Roberts, BA, BD

**YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL**

Cyfeirnod: 882 3482 0558  Passcode: 257955

## Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan
## Eglwys Gymraeg Canol Llundain



Mae Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Oxford Circus, yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig sy'n arddel ffydd Gristnogol i ymuno â ni fel Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan.

Bydd y rôl yn cynnig cyfle cyffrous i gryfhau a meithrin perthynas â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Llundain, gan eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â bywyd yr eglwys a'r gymuned Gristnogol ehangach.

Swydd fydd hon am gyfnod cychwynnol o 12 mis, gydag adolygiad perfformiad ar ôl 6 mis.

Bydd y termau cyflogi i'w trafod yn ôl cymwysterau a phrofiad.

Dyddiad dechrau: Medi 2026

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Gorffennaf 2026

Am fwy o fanylion, swydd-ddisgrifiad llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r Gweinidog, Y Parchg Robert Nicholls, ar: rob.nicholls75@gmail.com

# Rhoda Evan, Kate Roberts, Eryn White a Rosa Hunt – merched y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*

Hanes aelod o Deulu Trefeca, sef Rhoda Evan, merch o blwyf Llanwynno, Morgannwg, yw thema prif ysgrif rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd*. Eryn M. White sy'n adrodd ei stori, a thrwy hynny ddarlunio bywyd yn un o fentrau mwyaf diddorol y Fethodistiaeth gynnar, sef 'Y Teulu', neu'r gymuned Gristnogol hynod a sefydlwyd gan Howell Harris yn ei gartref yn Nhrefeca yn 1752. Ni ŵyr neb mwy nag Eryn am fywyd y Methodistiaid cynnar, yn enwedig y merched a gyfrannodd mor helaeth at lwyddiant y mudiad, a daw ei gallu i ysgrifennu'n afaelgar yn amlwg yn yr ysgrif gyfoethog hon. Bu farw Rhoda drwy anffawd drasig yn 1767 a hithau'n ddim ond 31 oed. Er gwaethaf y tristwch, anturiaeth a newydd-deb oedd nodweddion mwyaf amlwg y gymuned, fel y gwelwch o ddarllen y traethiad difyr hwn.

O droi o'r ddeunawfed ganrif at gyfnod nes atom, ceir ymdriniaeth hefyd â dau o lenorion mawr Cymru yr ugeinfed ganrif, sef Kate Roberts ac Emyr Humphreys. Yn adeiladu ar eu cyfrol *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru* a adolygwyd yn rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd*, mae Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd yn disgrifio ac yn dadansoddi ymwneud y nofelydd a'r storïwraig Kate Roberts â Phlaid Cymru. A hithau'n un o'i haelodau cynnar, arhosodd gyda'r Blaid ar hyd ei hoes er gwaethaf ei hanesmwythyd amlwg â rhai o'i hagweddau, yn arbennig erbyn canol y ganrif. Gwyddom lawer am fywyd a phersonoliaeth yr un a alwyd – yn ddigon anffodus erbyn hyn – yn 'frenhines ein llên', ac mae'r ysgrif hon yn ychwanegu at yr wybodaeth honno.

Un o ladmeryddion mwyaf Kate Roberts, yn enwedig yn saithdegau ac wythdegau'r ganrif o'r blaen, oedd Derec Llwyd Morgan. Er hynny, nid arni hi ond ar nofelydd cyfrwng-Saesneg mwyaf Cymru yr un cyfnod, Emyr Humphreys, yr ysgrifenna yma. Er i Kate fyw yn hen, cyrhaeddodd Emyr (a oedd yn iau na hi o ugain mlynedd) ei gant ac un, a nodi ailgyhoeddi diweddar ddetholiad o'i waith a ymddangosodd gyntaf yn 2009 a wna'r ysgrif 'Emyr Humphreys ac Amseroedd Cymru'. Er mai yn Saesneg yr ysgrifennai, darlunio bywyd Cymru Gymraeg yr ugeinfed ganrif a wnaeth Emyr, a hynny yn dreiddgar gofiadwy.

Dwy ysgrif, felly, ar ddau o'n nofelwyr mwyaf, ac mae'n fraint gan *Y Traethodydd* rhoi lle iddynt yn y rhifyn hwn.

Yn ogystal â'r uchod, ymdriniaeth John Gwilym Owen ac Aled Griffiths, cyn-ddarlithwyr yn Adran y Gyfraith, Prifysgol Bangor, â chymal iaith drwgenwog y Ddeddf Uno, 'utterly to extirp all and singular the sinister usages and customs differing from the same' (hynny yw, y Saesneg), yw thema'r ysgrif 'Y Gyfraith a'r Gymraeg'. Byth oddi ar i Saunders Lewis ddwyn sylw i'r cymal hwn yn ei ddarlith 'Tynged yr Iaith' yn 1962, bu'n rhan o fytholeg cenedlaetholdeb modern. Dadansoddiad mwy tyner sy gan yr awduron hyn ac un y tâl i ni i gyd roi sylw iddo.


Ynghyd â'r uchod, ceir ail ran ysgrif Rosa Hunt ar berthnasedd Credo Nicea i'r bywyd eglwysig cyfoes, a thri adolygiad: Cynfael Lake ar ddetholiad o *Gerddi Edward Moris*, y bardd o'r ail ganrif ar bymtheg; Dafydd Johnston ar gasgliad o ysgrifau llenyddol Dafydd Glyn Jones, *Tylwythau Llên*; a Rhys Llwyd ar gofiant diweddar Aled Eirug, *Dafydd Elis Thomas: Nation Builder*. Rhwng popeth, felly, dyma arlwy gyfoethog ar gyfer ein darllenwyr.

Dyma ni yn annog ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan: https://www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.


Dathlu cyfraniad

**Y Traethodydd**

yn Eisteddfod y Garreg Las




Am ganrif a thri chwarter a mwy mae'r Traethodydd wedi gwasanaethu diwylliant Cymru a'i llên. Dewch i babell Prifysgol Aberystwyth am 2 o'r gloch pnawn Mawrth 4 Awst i ddathlu parhad cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru a chlywed **Eryn White** yn sôn am hanes cyhoeddi cylchgronau yn y Gymraeg a **Dylan Iorwerth** yn trafod eu dyfodol yn yr oes ddigidol. Trafodaeth fer a derbyniad i ddilyn.

**Pabell Prifysgol Aberystwyth**
**2 o'r gloch**
**Mawrth, 4 Awst**

YTraethodydd

# Ebeneser, Llanllyfni, yn dathlu 200 mlynedd!




Yr haf yma rydym yn dathlu carreg filltir arbennig iawn yn hanes ein cymuned wrth i Gapel Ebeneser, Llanllyfni, gyrraedd ei ben-blwydd yn 200 oed.

Dros y pythefnos nesaf bydd cylchgrawn arbennig yn cael ei ddosbarthu i gartrefi'r pentref yn myfyrio ar y ffydd, y gobaith a'r cariad sydd wedi bod wrth wraidd bywyd y capel ers 1826 – ac sy'n parhau i roi ystyr a chyfeiriad i fywydau pobl heddiw.

Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y ddau ddigwyddiad cyhoeddus canlynol:

## Dathliad Cymunedol ar 7 Gorffennaf am 2.00pm

Dathliad cymunedol yng nghwmni Ysgol Llanllyfni, Trey McCain a Hannah Smethurst o Clwb Splash, y Parch. Ddr Rhys Llwyd, ein gweinidog, ac aelodau a chyfeillion y capel. Cyfle i ddod ynghyd i ddathlu bywyd y gymuned a'r etifeddiaeth sydd wedi ein siapio. Croeso cynnes i bawb.

## Darlith Hanesyddol ar 9 Gorffennaf am 7.00pm

Darlith gyhoeddus hwyliog yng nghwmni'r hanesydd lleol Geraint Jones, Trefor, yn edrych ar hanes gweinidog cyntaf Ebeneser, y Parchedig Robert Jones, Llanllyfni, a'r byd yr oedd yn byw ac yn gweinidogaethu ynddo. Croeso cynnes i bawb.

**Ebeneser, Llanllyfni: 200 mlynedd o ffydd, gobaith, cariad**




# Cymru a Makerfield
## gan Rhys ab Owen, Caerdydd

Mae Makerfield wedi bod yn y newyddion yn aml yn ddiweddar. O'r fan honno, meddir, y daw'r meseia gwleidyddol diweddaraf. Ond tybed faint sy'n ymwybodol o gysylltiadau Makerfield â Chymru?

Yn ystod yr ymgyrch etholiadol anfonodd cyfaill i mi a oedd yn canfasio dros Andy Burnham lun o adeilad drws nesaf i'r swyddfa ymgyrchu. Er syndod i mi, roedd Cymraeg ar dalcen yr adeilad yn cyhoeddi mai pwrpas gwreiddiol y siop oedd Carmel, Addoldy Anenwadol Cymreig.

Adeiladwyd Carmel yn 1891 i ddiwallu anghenion ysbrydol y chwarelwyr a'u teuluoedd a oedd wedi ymfudo o ogledd Cymru i weithio ym mhyllau glo'r ardal. Ymhlith ei haelodau yr oedd y llyfrwerthwr a'r llenor J. R. Morris (1879–1970), ac yn ei hunangofiant, *Atgofion Llyfrwerthwr* (1963), ceir cipolwg gwerthfawr ar fywyd y gymuned Gymraeg honno. Magwyd dau Gymro Cymraeg blaenllaw yng Ngharmel, sef Gordon Macdonald (1888–1960), a ddaeth yn Aelod Seneddol lleol, yn aelod o gabinet Clement Attlee ac yn Llywodraethwr olaf Newfoundland; a Tom Jones neu Twm Sbaen (1908–90), yr Undebwr llafur blaenllaw a ffigwr gwrth-Ffasgiaeth amlwg a aeth i frwydro yn rhyfel cartref Sbaen.


Nid Carmel oedd yr unig dystiolaeth o bresenoldeb Cymraeg yn Makerfield. Ar yr un stryd, a elwid yn 'Little Wales', roedd gan y Wesleaid gapel Cymraeg o'r enw Hermon, a oedd yn weithgar iawn, yn ôl papur *Y Gwyliedydd*, yn ystod diwygiad 1904–05. Hefyd, roedd gan y Bedyddwyr Cymraeg achos ar yr un stryd lle saif swyddfa bresennol darpar Brif Weinidog y Deyrnas Unedig.

Gyda chau Carmel yn 1983, daeth yr angen am addoliad Cymraeg ym Makerfield i ben. Mae Carmel bellach yn gwasanaethu'r gymuned fel siop soffas, Hermon fel siop garpedi, capel y Bedyddwyr fel campfa, ac achos yr Annibynwyr wedi ei hen ddymchwel. Ond erys olion y dylanwad Cymraeg hyd heddiw. Ceir maestref o'r enw Bryn, ac mae caffi o'r enw Cwtch yno, lle bu cyfaill arall i mi'n mwynhau paned haeddiannol rhwng sesiynau o ganfasio.

Mae hanes Makerfield, felly, yn ein hatgoffa fod cyfraniad y Cymry ac Anghydffurfiaeth Gymraeg i gymunedau tu hwnt i Glawdd Offa yn aml yn llawer mwy sylweddol nag a dybiwn ar yr olwg gyntaf. Er mai geiriau treuliedig ar lond dwrn o adeiladau a cherrig beddau Makerfield yw'r Gymraeg bellach, mae'n braf meddwl bod disgynyddion y chwarelwyr hynny wedi chwarae eu rhan mewn isetholiad mor bwysig.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 29

## Ymson Dina

Fe wyddoch fy enw, ond wyddoch chi ddim o fy stori'n gyflawn oherwydd mai rhywrai eraill a'i hadroddodd. Heddiw, gadewch i mi siarad.

Merch oeddwn i a feiddiodd gamu allan. Ro'n i eisiau gweld a doedd dim ofn arna i. Es i ddim i chwilio am drwbwl a doedd dim dyhead ynof i dynnu nyth cacwn i fy mhen. Ac yn sicr, do'n i ddim yn haeddu'r hyn ddigwyddodd.

Os gwyddoch chi am bwysau cledr llaw ddiwahoddiad ar eich croen, fe wyddoch ychydig am fy mhrofiad. Os gwyddoch chi am hyrddiadau geiriau hyll yn eich brifo, fe wyddoch ryw fymryn am fy mhoen. Os gwyddoch chi am gamddefnyddio grym gwenwynig, yna fe wyddoch sut y gall person gael ei lorio gan greulondeb.

Y ferch a geisiodd ddweud 'na' a chael ei hanwybyddu, gwelaf di.

Pob person sy'n beio'i hun oherwydd bod rhywun arall wedi dewis llwybr trais, gwelaf dithau.

Pob goroeswr sydd wedi gorfod gwylio eraill yn trin a thrafod yr effeithiau hirdymor a neb yn holi sut y maent yn teimlo, fe'th welaf.

Wedi'r treisio, roedd gan nifer gymaint i'w ddweud. Bu dynion yn dadlau, yn ceisio gwneud synnwyr o bethau. Tawel oedd fy nhad. Roedd fy mrodyr yn gandryll. Ond ble roedd y cwestiwn y dylid bod yn ei ofyn, yr un pwysicaf?

'Dina, sut wyt ti?'

Doedd neb yn gofyn hyn. Efallai'n wir mai dyma'r peth anoddaf: cael eich anwybyddu, a hynny o fewn y dolur ei hun. Mae rhai merched heddiw'n dal i orfod ymdopi â bod yn anweledig. Eisteddant mewn swyddfeydd, mewn eglwysi, ysgolion, a chartrefi. Ceisiant ddweud eu stori, ond cânt eu hamau neu eu cywiro. Weithiau, byddant yn cario cyfrinach am flynyddoedd maith. Ambell dro, bydd pawb yn dadlau amdanynt a hwythau yno, yn y fan a'r lle. Ond cofia hyn:

- rwyt ti'n fwy na'r peth gwaethaf sydd wedi digwydd i ti;
- nid yw dy urddas wedi'i gipio oherwydd y drwg yn rhywun arall;
- nid cam gwag rhywun arall sy'n peri i ti syrthio;
- rwyt ti'n werthfawr, er y boen.

Nid peth newydd yw trais o'r math hwn. Mae'n bod ers canrifoedd maith. Cofiwn fod dewrder hefyd yn bodoli ers miloedd o flynyddoedd. Bob tro y bydd menyw'n codi ei llais ac yn rhannu'r gwir, bydd dewrder yn siarad. Bob tro y bydd menyw arall yn ei chredu, bydd dewrder yn tyfu. Bob tro y bydd cyfiawnder yn cario'r dydd, bydd dewrder yn esgyn fry a'i adenydd ar led.

Wedi'r treisio, roedd fy nheulu'n wyllt gan gynddaredd. Ond nid enillir dim drwy ddial. Ni ddaw i neb ddoe yn ôl, ac ni ddaw unrhyw dda ychwaith o ddewis arf creulondeb.

Bydd rhai'n tybio mai dicter uchel ei lef sy'n gwella clwyfau tawel. Ond bydd hedyn gwellhad yn cael ei blannu pan fydd goroeswyr yn cael rhannu eu storïau, pan fydd cymunedau'n cysgodi'r gwan, a phan gaiff y diniwed eu hamddiffyn.

Peidiwch, da chi, â chofio'r trais yn fy erbyn yn unig, ond yn hytrach cofiwch am fy enaid. Dyna lle mae fy rhuddin, canolbwynt fy hunaniaeth. Efallai y bu'n rhaid i mi aros, ar hyd y canrifoedd, i'm llais gael ei ryddhau a chael gwrandawiad. Ti, y funud hon, yw'r person sy'n fy nghlywed. Felly, os wyt ti'n cario creithiau o unrhyw fath, clyw fy ngeiriau:

- dwyt ti ddim wedi dy anghofio;
- dwyt ti ddim yn unig;
- mae dy ddagrau'n cyfrif
- a'th stori hefyd, yn union fel fy stori innau.

**Holi**

- Yn Genesis 34 mae Dina yn dawel, tra mae pawb arall o'i chwmpas yn ei thrin a'i thrafod. A yw goroeswyr heddiw yn cael gwrandawiad teg? A sut allwn ni ddatblygu'r ddawn i wrando'n well?
- Mae stori Dina yn ein hatgoffa nad yw'r Beibl yn cuddio hanesion anghyfforddus. Ydy hi'n bwysig, yn eich barn chi, fod y Beibl yn cynnwys stori fel hon? Pam?
- Mae nifer fawr o bobl heddiw'n cario creithiau nad ydynt yn weladwy ar yr olwg gyntaf. Sut mae eich eglwys chi'n mynd ati i geisio'u hadnabod yn well?
- Hyd yn oed os nad oes gennych greithiau penodol, beth, yn eich tyb chi, fyddai Dina eisiau ichi ei ddeall a'i gofio?

**Gweddi**:
Dduw ein heiriolwr,
gwêl yr angen ym mhawb sydd
wedi eu brifo, eu llorio,
neu eu hanghofio.
Clyw ein cri, a rho ddoethineb inni
lefaru geiriau addas wrth godi ein
llais yn erbyn anghyfiawnder.
Dy bresenoldeb di sy'n ein cysgodi
a'n hymgeleddu.
Daw gobaith drwy dy gariad.
Boed i dy gyfiawnder adfer urddas,
i'th gariad chwyddo gobaith,
a'th bresenoldeb atgoffa pob un
ohonom ein bod yn arbennig
yn dy olwg. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 5 Gorffennaf 2026**

BBC radio cymru | S4C

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 5 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Sian Meinir

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 5 Gorffennaf am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Glyn Wise, Hen Golwyn a Betws-yn-Rhos

## O Gefn Gwlad

Colofn Elfyn Pritchard



# Synesthesia

Doeddwn i ddim yn chwilio am y gair; yn wir, wyddwn i ddim am ei fodolaeth. Dod ar ei draws o'n ddamweiniol wnes i wrth ddarllen rhywbeth, ac fe dynnodd fy sylw, fel y mae ambell air yn ei wneud o dro i dro. Y teitl yw fersiwn Cymraeg 'Bruce' o'r Saesneg – *synaesthesia* (gw. *Geiriadur yr Academi*, Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones).

Af i ddim yn rhy dechnegol wrth geisio esbonio'i ystyr ar ôl darllen amdano. Cyflwr niwrolegol ydi o, cyflwr y mae'r byd meddygol yn ei gyfri'n wendid, cyflwr lle y gall ymateb i unrhyw un o'r pum synnwyr i rai sy'n dioddef fod yn rhywbeth hollol afreolus.

I rai, mae'n allu arbennig sy'n rhoi inni brofiadau'r tu hwnt i'r rhai arferol a ddaw inni drwy'r pum synnwyr yn unig, a hyn drwy baru syhwyrau na fyddech yn arferol efallai, nid bob amser beth bynnag, yn eu rhoi wrth ei gilydd. Chweched synnwyr, efallai?

Mae esiampl ardderchog mewn barddoniaeth Gymraeg sydd efallai'n well esboniad na dim y gallaf fi ei roi, sef llinellau cyntaf awdl Gerallt Lloyd Owen – 'Yr Afon':

> Pan feddwn dalent plentyn
> I weld llais a chlywed llun.

Dyna fo i chi, cysylltu golwg efo sain a chlyw efo golwg: clywed yn rhoi'r profiad o weld, a gweld yn rhoi'r profiad o glywed. 'Talent plentyn', meddai Gerallt y bardd; synesthesia, meddai'r arbenigwyr meddygol, na fydden nhw, mae'n debyg, yn ystyried gweld yn ymateb naturiol i glywed rhywbeth, na chlywed yn ymateb naturiol i weld rhywbeth. Wedyn, dyna i chi eiriau cyntaf emyn ardderchog D. Hughes Jones: 'A glywaist ti waedd yr anghenus?'

Gan Gerallt cawn gyfeiriad at y gweld a'r clywed sydd y tu hwnt i brofiadau cyffredin – cyffredin, dd'weda i, nid cwbwl absennol chwaith. A'r un modd gan D. Hughes Jones, gan mai gweld yr anghenus ar ein sgriniau a wnawn a'r gweld yn troi'n glywed, gobeithio, sy'n alwad i bob un ohonom.

Rhyw fath o synesthesia? Gallaf fod yn cyfeiliorni, ond y mae gennym hawl i ddehongli ystyron geiriau mewn gwahanol ffyrdd, on'd does? Ac mae geiriau yn newid ystyron yn aml, yn tydyn, neu'n ychwanegu ystyron newydd atynt, yn enwedig o fewn cyd-destunau gwahanol. A dyna wnaf i yma: awgrymu, os nad dweud yn bendant, mai ein hangen ni fel Cristnogion a rhai sy'n arddel y ffydd ydi am ddos go dda o synesthesia – synesthesia crefyddol, os mynnwch chi.

Cyfeiriais at emyn D. Hughes Jones, lle mae'n bod drwyddo. Yn y pennill cynta y mae'r clywed, clywed gwaedd yr anghenus. Y tebyg ydi fod yr anghenus y sonia amdano yn byw bellter cred oddi wrthon ni. Dyma'r gwir anghenus yng ngwledydd tlawd y byd, gwledydd y mae bwydo'r trigolion yn frwydr barhaus sy'n cael ei llesteirio'n aml gan wahaniaethau a rhyfeloedd. A'u gweld a wnawn, fel y gwelodd yr emynydd hwy, ar ein sgriniau.

A yden ni'n clywed gwaedd y rhain yn ein meddyliau ddigon i wagu ein pocedi er eu mwyn? Dyna'r cwestiwn. A oes synesthesia crefyddol yn ein gwneuthuriad fel Cristnogion?

Yr un modd, yr ail bennill a'r cyfeiriad at y rhai sy'n dioddef oherwydd clwyfau a achoswyd gan y byd a'i heldrin: 'A deimlaist ti boen y clwyfedig?' Er nad oes rhyfel yn agos aton ni, tydi o ddim ymhell chwaith. A lle bo rhyfel a gwrthdaro, y mae yna glwyfedigion, rhai sy'n dioddef pob math o anableddau corfforol a meddyliol.

Fe'u gwelsom lawer gwaith ar fwletinau newyddion ein cyfryngau. A yden ni sy'n iach ein crwyn yn gallu weithiau deimlo poenau'r dioddefwyr? A yw meddwl amdanynt yn achosi poen i ni? A oes synesthesia crefyddol yn peri i ni fod yn gymdogion drwy ein rhoi – i'w helpu? Y gweld sy'n troi'n deimlo?

Yr amddifad sy'n cael sylw trydydd pennill yr emyn: 'A brofaist ti wayw'r amddifad?' Mae unrhyw wrthdaro'n creu pobl amddifad – y wraig y lladdwyd ei gŵr, y plentyn a gollodd ei rieni ac y gwelsom luniau sawl un yn torri ei galon. Af i ddim i restru'r elusennau sy'n cynnig croeso ac yn estyn llaw trugaredd yn enw'r efengyl i'r trueiniaid hyn.

Gwnaf, mi enwaf dair, sy'n gweithredu yma yng Nghymru hefyd: Cronfa Achub y Plant, Byddin yr Iachawdwriaeth, ac wrth reswm Cymorth Cristnogol.

Tybed nad oes angen arnom oll am ddos go dda o synesthesia crefyddol fel y gallwn wrth weld, glywed gwaedd yr anghenus, teimlo poen y clwyfedig a phrofi gwayw'r amddifad? Ac wedi'r clywed, y teimlo a'r profi – ymateb!

## Myfyrdod ar Effesiaid 5:2
## Rhodiwch mewn Cariad (BWM)
## Dylech fyw bywydau llawn cariad (beibl.net)

*Thema cyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru a gynhaliwyd yn y Tabernacl, Caerdydd, ganol Mehefin a thema'r oedfa'r agoriadol yng ngofal Eirian Dafydd.*

'Duw cariad yw'. Mae'n siŵr ein bod i gyd wedi dysgu'r adnod hon yn blant bach iawn a'i dysgu er ein bod yn rhy ifanc i ddeall ystyr y gair 'cariad'. O ddarllen llythyr cyntaf Ioan deallwn fod cariad yn dechrau gyda Duw, a Duw yw'r ffynhonnell.

Sut felly y byddem yn mynd ati i'w ddisgrifo i eraill? Un o ffrwythau'r Ysbryd? Ond y mae dweud hynny'n gallu bod yn ystrydebol iawn.

I nifer ohonom y mae'n ymdeimlad cynnes o ofal Tad a llonyddwch o'n mewn. Y mae'n hollbresennol. Yno hyd yn oed ar yr adegau hynny pan nad ydym yn teimlo ein bod ei angen. Allwn ni ddim ei brynu na'i ennill drwy ein gweithredoedd da. Cariad rhad, diamod yw cariad Duw, sy'n maddau pan awn yn groes i ewyllys Duw, sy'n lloches yng nghanol stormydd bywyd ac yn gwmni mewn unigrwydd.

Ond y mae'n bwysig ein bod yn cofio mai rhodd i'w defnyddio yw cariad Duw. Ie, 'rhodiwch mewn cariad', neu 'dylech fyw bywydau llawn cariad' yng nghyfieithiad beibl.net. Ac y mae'r berfau 'rhodiwch' a 'dylech' yn orchymynnol eu naws, yn mynnu ein bod yn gwneud rhywbeth â'r cariad yma. Yn ystod ein bywydau y mae'n siŵr ein bod wedi cael rhyw rodd nad oeddem yn sicr beth i'w wneud â hi. A'r canlyniad, heb os, fyddai ei rhoi yng nghefn cwpwrdd neu ddrôr ac anghofio amdani, cyn dod ar ei thraws flynyddoedd yn ddiweddarach. Ond nid rhodd felly yw cariad Duw – rhodd yw hon i ni ei defnyddio bob dydd, drwy'r hyn wnawn, drwy'r hyn a ddywedwn a thrwy ein hymwneud ag eraill.

Fel Cristnogion, dylai cariad Duw lifo allan ohonom fel dŵr o ffynnon. Arddangos cariad Duw yw'r gwaith y cawsom ein galw i'w wneud. Bod yn dystion i'w gariad yw ein galwedigaeth a'n gweinidogaeth ni oll.

Wrth glywed am ryfeloedd, trais a chasineb ledled byd ac o fewn ein cymunedau, rydym yn sylweddoli cymaint y mae ein byd heddiw angen cariad Duw. Y mae'r byd angen gwybod bod cariad yn drech na chasineb. Rhaid i ni felly fyw bywydau llawn cariad er mwyn arddangos Crist i eraill.


**Rhodiwn mewn cariad**

Wrth estyn llaw yn dawel a rhoi gair
o gariad i'r isel,
Ei siars atebwn a sêl,
a'i ffyrdd a gaiff eu harddel. (ED)

# Ordeinio dwy flaenores newydd
## yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro



Dydd Mercher, 24 Mehefin, ordeiniwyd dwy flaenores newydd yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, sef Sian Jones a Ruby Williams – y ddwy'n aelodau yng Nghapel y Tabernacl, Aberaeron. Arweiniwyd y gwasanaeth ordeinio, a gynhaliwyd yn dilyn eisteddiad o'r Henaduriaeth yng Nghapel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan, gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth. Roedd defod yr ordeinio dan ofal y Parch. Carwyn Arthur, Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, ac ef hefyd a roddodd gyngor i'r blaenoriaid newydd, yn seiliedig ar y cymal 'bod ffydd yn rhywbeth llawer mwy gwerthfawr nag aur' (1 Pedr 1:7; beibl.net).




**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru ar 01745 817584 neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.